**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023.

**Eluned Morgan**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

20 Rhagfyr 2023

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("y Rheoliadau diwygio") yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") i gywiro gwallau sy'n dechnegol eu natur neu'n ymwneud â chonfensiwn drafftio. Nid yw'r Rheoliadau diwygio yn newid polisi nac effaith Rheoliadau 2023 mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff y polisi ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Adroddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 (SL(6)380) ar 25 Medi 2023. Yn yr adroddiad hwnnw, nodwyd nifer o gywiriadau y dylid eu gwneud i'r Offeryn Statudol. Cytunodd Llywodraeth Cymru i wneud y cywiriadau hynny ac mae'n gwneud hynny drwy'r Rheoliadau diwygio hyn.

2.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y Weithdrefn Cyhoeddiad am Ddim ac felly byddant ar gael yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd wedi prynu copi caled o fersiwn Argraffydd y Brenin o'r prif reoliadau.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Bydd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 yn cael eu gwneud yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 7(8), 41(3), (5) a (6), 43, 44, 47, 48(1) a (3), 54(6) a (7), 135 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

3.2 Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Effaith y Rheoliadau diwygio yw cywiro gwallau sy'n dechnegol eu natur neu'n ymwneud â chonfensiwn drafftio yn Rheoliadau 2023.

## 5. Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau diwygio gan nad yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud yn newid y polisi nac yn cael unrhyw effaith arno nac ar sut y caiff ei gymhwyso.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn gan fod y Rheoliad diwygio yn gwneud diwygiadau technegol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nid yw'r diwygiadau yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.